Mae pawb yn cael eu galw ...

“Galwodd Duw chwi wrth eich enw a’ch gwneud yn eiddo iddo’i hun.”

Mae pob Cristion yn cael ei alw gan Dduw. Fe’n gelwir i fod yn ddisgyblion i Iesu ac i barhau ei genhadaeth i’r byd. Gelwir rhai i weinidogaethau arbennig yn yr eglwys, i fod yn ddiaconiaid, offeiriaid, esgobion, mynaich, lleianod, efengylwyr, darllenwyr, gweinidogion ewcharistaidd lleyg, neu i nifer o wahanol weinidogaethau eraill.

Gelwir offeiriaid ...

Gwaith arbennig offeiriad yw arwain pobl Dduw a gofalu amdanynt.

Mae offeiriaid yn arwain yr eglwys drwy: gyhoeddi gair Duw; llywyddu yn y Cymun; galw pobl i edifeirwch a chymod; galw pobl Dduw i sancteiddrwydd buchedd; bendithio; gweddïo; cynghori; bedyddio; rhannu’r ffydd Gristnogol; annog mentrau cenhadu newydd; gweinidogaethu i’r rhai sy’n glaf ac yn marw; gweithio dros heddwch a chyfiawnder a chymod; hyrwyddo gweinidogaeth pawb.

Mae offeiriaid yn gweithio gyda’u Hesgob, clerigion eraill a holl bobl Dduw, i rannu gweinidogaeth Crist.

Mae llawer ffordd o fod yn offeiriad ...

Y mae llawer o wahanol ffyrdd o leoli offeiriaid.

Mewn plwyfi mae ar yr eglwys angen:

- rhai offeiriaid a fydd yn barod i symud o gwmpas a gwasanaethu mewn amrywiol leoedd ac mewn gwahanol sefyllfaoedd dros y blynyddoedd;
- offeiriaid eraill i wasanaethu eu heglwys a’u cymuned leol yn yr ardal lle y maent yn byw. Mae’r offeiriaid hyn yn byw yn eu tai eu hunain ac yn eu cynnal eu hunain yn ariannol.

Y duedd gynyddol yw bod pob offeiriad plwyf yn cydweithio â gweinidogion eraill, lleyg ac ordeiniedig, i arwain nifer o eglwysi mewn ardal.

Mae llawer yn gweinidogaethu mewn carchardai, ysgolion, caplaniaethau, canolfannau siopa; gyda’r heddlu, y gwasanaeth tân, awdurdodau lleol, caplaniaethau sifil; mewn gwaith.

Mae’r eglwys yn talu rhai offeiriaid; mae nifer gynyddol yn ddi-dâl; cyflogir rhai gan asiantaethau a mudiadau eraill. Mae cyfle cynddol i offeiriaid i wasanaethu mewn ystod eang o ffyrdd.

The Church in Wales
Yr Eglwys yng Nghymru

The ministry of a Priest

Gweinidogaeth Offeiriaid

All are called...

"God has called you by name and made you his own."

All Christians are called by God. He calls us to be disciples of Jesus and to continue his mission in the world. Some will be also called to particular ministries in the church as deacons, priests, bishops, monks, nuns, evangelists, readers, lay eucharistic ministers and a variety of other ministries.

Priests are called...

The particular work of the priest is to lead and care for the people of God.

Priests lead the church in:
proclaiming the word of God; presiding at the Eucharist;calling people to repentance and reconciliation; calling the people of God into holiness of life; blessing; praying; guiding; baptising; communicating Christian faith; encouraging new ventures in mission; ministering to the sick and dying; working for peace, justice and healing; encouraging the ministry of all.

Priests work with their Bishop, other clergy and all the people of God, sharing in the ministry of Christ.

There are many ways of being a Priest...

Increasingly priests are being deployed in a wide variety of ways:

In parish life the church needs ...

- some priests willing and able to move around and serve in a range of different places and situations over the years
- others to serve in their local church and community or near where they live. These priests live in their own homes and are financially self-supporting.

Increasingly all priests in parishes serve with other ministers, lay and ordained, leading several churches in an area.

Many exercise ministry in prisons, schools, chaplaincies, shopping centres, with police, fire-service, local authorities, civic chaplaincies, at work.

Some priests are paid by the church; increasing numbers support themselves financially; some are employed by other agencies and organisations.

There is increasing need and opportunity for priests to minister in a range of ways over the course of their ministry.

What next? Beth nesaf?

This leaflet is one of a series including: discipleship and lay ministries; deacons; priests; Readers.
Mae'r daflen hon yn un o gyfres sy'n cynnwys: disgyblyddiaeth a gweinidogaethau lleyg; diaconiaid; offeiriaid; darllenwyr.

If you feel that God may be calling you, listen and talk to God, to those who know you well and to your parish priest or chaplain.
If you believe that God may be calling someone you know, pray for them and talk with them.
Os teimlwch y gall fod Duw yn eich galw, gwrandewch ar Dduw a siaradwch ag ef.
Siaradwch hefyd â'r rhai sy'n eich adnabod yn dda ac â'ch offeiriad plwyf neu eich caplan. Os teimlwch y gall fod Duw yn galw rhywrai yr ydych yn eu hadnabod, gweddïwch drostynt a siaradwch â hwy.

Further copies from your diocesan office or ring 029 2034 8250. Copïau ychwanegol o swyddfa eich esgobaeth, neu ffôniwch 029 2034 8250.

For more information contact:
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Church in Wales / Yr Eglwys yng Nghymru 2005